



## Annwyl Arweinydd

Mae'n flwyddyn addysgol newydd ac mae'n amser i ni feddwl am ail gychwyn ac ehangu ar Fforwm Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru Ceredigion. Sefydlwyd Fforwm Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru er mwyn i ni glywed llais ein hieuenctid ac yn sicr mae yn llwyddiant ysgubol wrth i'r Fforwm leisio barn mewn sawl cyfnod sydd wedi golygu datblygiadau i nifer helaeth o benderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y gwaith rydym yn ei wneud fel mudiad yn datblygu gyda gofynion pobl ifanc Ceredigion, mae'n holl bwysig i ni ein bod yn cael adborth y bobl ifanc hynny. Trwy wrando ar eu barn yn y fforwm, gallwn ddiwygio ein gwaith fel ei fod yn gweddu anghenion ieuenctid y Sir.

Mae Urdd Gobaith Cymru yn brif fudiad ieuenctid Cymru ac Ewrop. Mae gan y mudiad dros 50,000 o aelodau a bron i 5,000 ohonynt o Sir Geredigion. Mae brwdfrydedd yn ieuenctid y Sir tuag at waith yr Urdd a hoffwn ehangu hyn ymhellach ar draws y Sir. Yn y gorffennol penodwyd 4 aelod o bob ysgol/cangen ar draws y Sir i ddod i'r Fforwm, ond teimlaf yn bersonol nad yw 4 yn ddigon felly fel llynedd hoffem fod y gwahoddiad yn agored i bawb o flwyddyn 10-13. Hoffwn hefyd groesawu'r rhai sydd wedi bod yn aelodau o'r fforwm yn flaenorol i ail ymuno a hefyd efallai rheini sydd yn aelod o Aelwydydd (Aelwyd Pantycelyn er enghraifft), fyddai'n hyfryd i gael chi yna.

Rydym yn gweithredu ar yr hyn mae ein pobl ifanc yn awgrymu ac yn symud gwaith yr Urdd yng Ngheredigion ymlaen. Rydym wedi profi yn ystod y blynyddoedd diwethaf bod galw yn y Sir am weithgarwch ieuenctid a bod awydd yn ein pobl ifanc i gymdeithasu drwy'r iaith Gymraeg. Byddwn yn ethol swyddogion a'n cynllunio rhaglen weithgareddau'r flwyddyn yn y cyfarfod cyntaf. Cynhelir y cyfarfod cyntaf yng Nghlwb Rygbi Aberaeron ar y 3ydd o Hydref am 5.30yh tan 6:30 yh.

Mawr obeithiaf am gefnogaeth pob cangen.

Yn gywir

**Sian Elin Williams**  
**Ieuenctid Ceredigion**

**Swyddfa Urdd Ceredigion**  
Gwersyll yr Urdd, Llangrannog  
Llandysul, Ceredigion, SA44 6AE

**01239652150**